| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 18fed 2026 |
| **TEITL** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau, adolygu aelodaeth y Panel |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth, dewis aelodau newydd |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r adroddiad yma yn darparu gwybodaeth am sefyllfa’r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn ariannol bresennol (2025-26).

1.2 Hefyd mae’r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am rai newidiadau sydd angen eu cyflwyno i drefn y Gronfa yn sgîl diwygio’r ddogfen Fframwaith a gyhoeddir gan Llywodraeth Cymru.

## 2.0 GWARIANT 2025/26

2.1 Roedd **£95,000** ar gael ar gyfer y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cafodd bron y cyfan o’r arian yma ei glustnodi ar gyfer prosiectau lleol yn Llŷn.

2.2 Mae’r rhestr isod yn cynnwys gwybodaeth am y prosiectau fesul un, gyda rhif cyfeirnod :

- CDC 25.2 — 1st mate Amgueddfa Forwrol — £4,506.00
- CDC 25.3 — Bws Fflecsi Llŷn — £25,000.00
- CDC 25.4 — Llwybrau aml ddefnydd Nefyn — £11,450.00
- CDC 25.5 — Pŵer solar Enlli — £9,572.00
- CDC 25.6 — Cae chwarae Llanbedrog — £22,145.00
- CDC 25.7 — Clwb rhwyfo Porthdinllaen — £750.00
- CDC 25.8 — Datgarboneiddio neuadd Rhiw — £2,250.00
- CDC 25.9 — Menter Rabar — £4,995.37
- CDC 25.10 — Gardd Antur Aelhaern — £1,000.00
- CDC 25.13 — Gwefan Tafarn y Fic, Llithfaen — £2,439.00

**Cyfanswm:** **£84,107.37**

2.3 Hefyd yn unol â rheolau’r Gronfa roedd yr Uned AHNE yn medru hawlio 10% am weinyddu’r grant (£9,500). Cyfanswm gwariant felly (os bydd pob prosiect yn hawlio yn llawn) fydd: £93,607.37.

## 3.0 Y GRONFA YN 2026/27

3.1 Mae **£95,000** ar gael ar gyfer y Gronfa y Ddatblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn ariannol nesaf yn ogystal (2026/27).

3.2 Bydd angen cynnal cyfarfod o'r Panel Grantiau yn fuan i ystyried ceisiadau newydd.

## 4.0 NEWIDIADAU I DREFNIADAU GRONFA AR GYFER 2026-27

4.1 Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru, sydd yn darparu'r cyllid ar gyfer y Gronfa, wedi cyhoeddi Dogfen Fframwaith ddiwygiedig (copi yn yr Atodiad).

4.2 Mae nifer o newidiadau arwyddocaol i'r Ddogfen Fframwaith. Gwelir isod grynodeb o'r rhai mwyaf arwyddocaol:

- Oherwydd yr angen i ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd **mae'n ofynnol i 60% o'r cyllid** gael eu glustnodi i brosiectau sydd yn mynd i'r afael â, neu ymateb i, newid hinsawdd a cholledion bioamrywiaeth.
- **Mwy o bwyslais ar gyd-weithio** gyda tirweddau eraill, y sector wirfoddol/ gymunedol a phartneriaid eraill.
- **Yr angen i gynnwys gwybodaeth am y Gronfa ar wefan** fydd yn cael ei diweddaru yn gyson, gyda manylion am sut i ymgeisio, ffurflen gais ayb.
- **Aelodaeth y Panel** – dylai'r Panel gynnwys o leiaf 3 aelod ond dim mwy na 5. Dylai aelodau wasanaethau am o leiaf dwy flynedd ond dim hirach na 4 mlynedd yn olynol. Rhaid adolygu'r aelodaeth bob 2 flynedd. Mae'n ofynnol i aelodau fod yn ymwybodol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a mynychu unrhyw hyfforddiant a drefnir.
- **Bydd y Panel yn atebol i benderfyniadau** a wneir ac yn medru darparu cyfiawnhad. Bydd angen hysbysebu penderfyniadau ar y wefan.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn y wybodaeth uchod.

5.2 I adolygu aelodaeth y Panel Grantiau i gydymffurfio â'r rheoliadau diwygiedig.